**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/214/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

20 Mehefin 2023

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 17 Mai, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig** yn crynhoi'r trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ('IMSC').

Rwyf wedi cadarnhau fel rhan o'r Datganiad hwnnw y bydd yr IMSC nesaf yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth yr Alban, yn unol â threfniadau cylchdroi'r cadeiryddion. Byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau agenda tebygol, maes o law.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol** |
| **DYDDIAD** | **20 Mehefin 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Cynrychiolais Lywodraeth Cymru ym mhedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 17 Mai.

Cafodd **cyd-hysbysiad** (Saesneg yn Unig)ei gyhoeddi yn dilyn y cyfarfod, sy'n cynnwys manylion llawn y rhai eraill oedd yn bresennol. Ar yr agenda roedd: Cyflwyniadau; Parthau Buddsoddi; Rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth y DU gan gynnwys Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir; a'r Fframweithiau Cyffredin.

Fel y dywedir yn y cyd-hysbysiad, nodwyd gan y Pwyllgor y gwaith dadansoddi trawslywodraethol i bennu'r hyn sy'n ysgogi anweithgarwch economaidd ymhlith unigolion ynghyd â'r gwahaniaethau ledled y DU. Nodwyd hefyd y cydweithio ar draws y grwpiau rhyngweinidogol ar y pwysau costau byw. Pwysleisiais fod costau byw yn fater hanfodol bwysig i bob llywodraeth. Mae angen inni sicrhau bod y camau pellach angenrheidiol yn cael eu pennu a'u cyflwyno ar gyfer gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn gyflym. Dylai'r penderfyniadau hyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd a busnesau, sy'n parhau i wynebu pwysau difrifol yn sgil chwyddiant a'r amodau economaidd ehangach heriol. Wrth i waith fynd rhagddo yn y maes hwn, pwysleisiwyd, oherwydd nad oes grŵp rhyngweinidogol ffurfiol sy'n gysylltiedig â phortffolio'r Adran Gwaith a Phensiynau, fod bwlch yn strwythurau'r cysylltiadau rhynglywodraethol y cytunwyd arnynt ar y cyd. Gofynnais inni ystyried gyda'n gilydd sut y gallwn fynd i'r afael â'r bwlch hwnnw.

Ar fater y Parthau Buddsoddi, roeddwn yn gwbl glir, fel yn achos y Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru, fod rhaid i'r cynnydd ar agenda'r Parthau Buddsoddi gyd-fynd â'n hamcanion a'n blaenoriaethau presennol, a'r cyfeiriad cyffredinol a bennwyd yn ein Cenhadaeth Economaidd.

Ar fater Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, cydnabûm fod gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil, sy'n golygu dileu'r cymal machlud ac na fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn mynd yn ddi-rym yn awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn mwyach felly, yn gam i'r cyfeiriad cywir. Bydd y

newidiadau yn golygu nad oes posibilrwydd y bydd deddfwriaeth bwysig mewn meysydd fel cyflogaeth, yr amgylchedd a diogelu defnyddwyr yn diflannu drwy amryfusedd a heb fod yn destun craffu gan y deddfwrfeydd. Fodd bynnag, mynegais unwaith eto ein pryderon ynghylch dull Llywodraeth y DU mewn perthynas â phwerau cydredol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd, a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd. Rwyf wedi bod yn gyson glir, os oes unrhyw bwerau sy'n arferadwy gan Weinidogion Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, yna dylent, fel gofyniad sylfaenol, fod yn amodol ar gael cydsyniad cadarnhaol Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, a dylid ymdrin â hyn ar wyneb y Bil.

Ar fater y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, codais y pwynt bod y ddarpariaeth ar gyfer pennu cenadaethau ffyniant bro, y metrigau a'r targedau cysylltiedig ac adrodd ar gynnydd yn Rhan 1 o'r Bil yn cynrychioli ymyrraeth amhriodol yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn parhau'n barod i weithio gyda Llywodraeth y DU ar Ran 6 o'r Bil. Fodd bynnag, dim ond os ydyn nhw'n ymrwymo i newid y dull presennol sy'n cynnwys pwerau cydredol ar gyfer Gweinidogion Llywodraeth y DU – pwerau y gellir eu harfer heb gydsyniad Gweinidogion Cymru – y gallwn gyflawni hyn.

Dywedais unwaith eto fod y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) yn ymosodiad diangen ac annheg ar hawliau gweithwyr ac ar undebau llafur. Mae'n fyrbwyll, mae'n annoeth, mae'n annelwig. Ni fydd y Bil hwn yn datrys anghydfodau diwydiannol a gall suro'r berthynas rhwng diwydiannau ym mhob rhan o Brydain Fawr. Cadarnheais fod y Senedd wedi gwrthod rhoi ei chydsyniad i Fil sy'n osgoi yn fwriadol awdurdod ein Senedd yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Nid oes modd cyfiawnhau bod Llywodraeth y DU am orfodi'r Bil hwn ar gyflogwyr a gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

Ar fater Confensiwn Sewel, codais y pwynt bod achosion posibl o dorri'r Confensiwn sawl gwaith yn ystod y flwyddyn hon yn unig gan Lywodraeth y DU yn dangos ei hagwedd mor sylfaenol amharchus a dinistriol tuag at y Confensiwn, datganoli a'r Undeb. Yn syml, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros hyn ac nid yw'n gydnaws â'r gofyniad na ddylai Llywodraeth y DU 'fel arfer' ddeddfu heb gydsyniad. Pan nad yw'r Senedd yn rhoi ei chydsyniad i Fil gan Lywodraeth y DU, mae angen i Lywodraeth y DU ailddechrau dangos parch tuag at ddatganoli a gwrthdroi sefyllfa lle'r duedd erbyn hyn yw mynd ati i dorri Confensiwn Sewel.

Ar fater y Fframweithiau Cyffredin, nodais eu bod yn dangos bod gweithio rhynglywodraethol da yn bosibl ac y gellir rheoli cydlyniant ac ymwahanu drwy gynnal deialog adeiladol a chydweithio. Fodd bynnag, mae angen bod yn fwy cyson wrth ddefnyddio'r mecanweithiau y mae'r Fframweithiau Cyffredin yn darparu ar eu cyfer i ymgysylltu'n gynnar. Gofynnais i Lywodraeth y DU fynd ati'n bendant i gadarnhau'r pwynt hwnnw ymhlith y sawl sy'n gweithio iddi, ar lefel weinidogol a lefel yr uwch-swyddogion.

Trafododd y Gweinidogion hefyd y mater o ymgysylltu rhyngwladol, gan gynnwys pryderon ynghylch canllawiau diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i'w swyddfeydd tramor ar ymweliadau gan weinidogion y llywodraethau datganoledig â'r gwledydd hynny. Cadarnheais na allem gytuno y dylai uwch-swyddog o Lywodraeth y DU fod yn bresennol ym mhob cyfarfod â gweinidogion llywodraethau tramor

fel mater o drefn. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolaeth o'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn y dyfodol i drafod y mater hwn.

Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol nesaf yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth yr Alban, yn unol â'r trefniadau cylchdroi cadeirydd.